YMDDIRIEDOLAETH ARCHAEOLEGOL CLWYD-POWYS
CLWYD-POWYS ARCHAEOLOGICAL TRUST

Hysbysiad Preifatrwydd

Mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys ('Ni' neu 'Ein') yn gwybod eich bod chi'n cymryd preifatrwydd eich gwybodaeth a'r ffordd o'i defnyddio a'i rhannu o ddifrif, ac ni fyddwn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol oni bai ein bod ni'n ei defnyddio'n unol â'r gyfraith diogelu data gyfredol yn y DU a'r polisi preifatrwydd hwn. Mae'r hysbysiad hwn yn disgrifio polisi preifatrwydd Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys a sut rydym ni'n anelu at ad-dalu'r ymddiriedaeth rydych chi wedi'i dangos trwy rannu'ch data personol â ni.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl wefannau rydym ni'n eu gweithredu, i'n ffordd o ddefnyddio negeseuon e-bost a negeseuon testun, i'r cyfryngau cymdeithasol, ac i unrhyw ddulliau eraill rydym ni'n eu defnyddio i gasglu gwybodaeth. Mae'n cwmpasu'r hyn rydym ni'n ei gasglu a pham, beth rydym ni'n ei wneud â'r wybodaeth, beth fyddwn ni ddim yn ei wneud â'r wybodaeth, a pha hawliau sydd gennych chi.

Mae'r polisi preifatrwydd hwn yn berthnasol yn unig i wybodaeth bersonol sydd gennym ni am unigolion. Nid yw'n berthnasol i wybodaeth sydd gennym ni am gwmnïau a sefydliadau eraill.

Mae'n bosibl y byddwn ni'n diweddaru'r polisi preifatrwydd hwn o bryd i'w gilydd trwy gyhoeddi'r fersiwn ddiwygiedig ar ein gwefan. Oni bai bod gennym ni resymau cyfreithiol dros wneud yn wahanol, fe fyddwn ni'n rhoi hysbysiad o 30 diwrnod o leiaf am y dyddiad y daw'r polisi preifatrwydd diwygiedig i rym. Mae'n bosibl y byddwn ni'n postio'r hysbysiad ar ein gwefan a/neu'n anfon yr hysbysiad atoch chi trwy e-bost.

Pwy ydym ni

Yn y polisi hwn, pan fyddwch chi'n gweld y geiriau ('ni' neu 'ein'), mae'n cyfeirio at Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys, o Y Swyddfeydd, Coed y Dinas, Welshpool, SY21 8RP, Y Deyrnas Unedig. At ddibenion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), y ni yw'r rheolydd/prosesydd data o ran y wybodaeth bersonol rydym ni'n ei chasglu ac yn ei phrosesu amdanoch chi fel a ddisgrifir yn y polisi preifatrwydd hwn.

Mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys yn elusen gofrestredig (Rhif Elusen 508301) ac yn gwmni cyfyngedig (Rhif Cwmni 1212455). Rydym ni hefyd yn Sefydliad Cofrestredig Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr.

Ein hamcan yw 'hyrwyddo addysg y cyhoedd mewn archaeoleg', ac rydym ni'n cyflawni hyn â chymorth cyllid o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys yn un o bedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru sy'n gweithio i helpu i ddiogelu, cofnodi a dehongli pob agwedd ar yr amgylchedd hanesyddol ar gyfer Cymru gyfan. Mae hyn yn cynnwys darparu cyngor i awdurdodau lleol ar archaeoleg ac ar gynllunio, ymgymryd â phrosiectau archaeolegol ar ran cleientiaid y sectorau preifat a chyhoeddus, a chyflenwi rhaglen o ddigwyddiadau a gweithgareddau archaeoleg cymunedol.

Mae'r rhan fwyaf o waith Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys yn mynd rhagddo yn sir Powys ac ardaloedd yr awdurdodau lleol yng nghyn sir Clwyd: sef Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Bwrdeistref Sirol Wrecsam a rhan ddwyreiniol Bwrdeistref Sirol Conwy. Rydym ni hefyd yn gweithio yn Lloegr ac weithiau mewn mannau eraill yn y DU ac Ewrop.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi'i threfnu'n bedair adran.

Mae'r Gwasanaeth Cynghori ar yr Amgylchedd Hanesyddol yn cyflawni deilliannau mewn tri maes allweddol: cynnal y Cofnod rhanbarthol o'r Amgylchedd Hanesyddol (CAH); darparu Gwasanaethau Cynllunio i awdurdodau lleol, datblygwyr a chyrff eraill; ac ymgymryd â gwaith Rheoli Treftadaeth ar ran Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, tirfeddianwyr, datblygwyr ac eraill.

Mae'r gwasanaeth Addysg ac Allgymorth yn galluogi cyfleoedd i ymgysylltu â'r cyhoedd, eu cael i chwarae rhan a'u cynnwys yn gymdeithasol trwy ddarparu amrywiaeth eang o ddigwyddiadau cyhoeddus a gweithgareddau ar gyfer grwpiau ac unigolion ledled rhanbarth Clwyd-Powys. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer y cyhoedd, yn ogystal â gwaith â'r nod o wella dyheadau a deilliannau cymdeithasol ac economaidd.

Mae'r tîm Gwasanaethau Maes yn gyfrifol am gyflawni prosiectau archaeolegol y mae cyrff y sectorau preifat a chyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yn eu hariannu. Mae prosiectau o'r fath yn cynnwys nodweddu'r amgylchedd hanesyddol, cynnal arolygon asesu safleoedd a gwaith cloddio ac arolygu sy'n gysylltiedig â bygythiadau. Mae'r gwaith hwn yn cyfoethogi'r sail gwybodaeth sy'n cefnogi gwaith penderfynu ynglŷn â Threftadaeth, yn galluogi datblygu cynaliadwy ledled ein rhanbarth, ac yn cyflawni hyfforddiant a deilliannau addysgol ar gyfer gweithwyr proffesiynol, pobl ddibroffesiynol a'r cyhoedd.

Mae'r adran Weinyddol yn cynnal rheolaeth fanwl ar wariant, ac yn sicrhau bod gweithrediadau'r Ymddiriedolaeth yn cael eu cynnal mewn modd effeithlon.

Bwrdd Ymddiriedolwyr sy'n llywodraethu'r Ymddiriedolaeth, ac mae hwn yn cyfarfod pedair gwaith y flwyddyn. Fel Ymddiriedolaeth Elusennol annibynnol rydym ni'n cyflwyno cyfrifon

blynyddol sy'n hygyrch i'r cyhoedd i'r Comisiwn Elusennau, ac fel cwmni cyfyngedig rydym ni'n cyflwyno datganiadau i Dŷ'r Cwmnïau.

Mae'n bosibl y byddwn ni'n casglu ac yn prosesu'r data a ganlyn amdanoch chi:

Gwybodaeth bersonol, fel enw, cyfeiriad post, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost, y byddwch chi'n ei darparu trwy lenwi ffurflenni papur neu rai ar ein gwefan www.cpat.org.uk, neu pan fyddwch chi'n cysylltu â ni dros y ffôn, trwy e-bost neu'r post, ac mae'n cynnwys gwybodaeth y byddwch chi'n ei darparu pan fyddwch chi:

- yn ymholi ynglŷn â'n gwasanaethau;
- yn ymholi ynglŷn â chynnyrch penodol;
- yn gofyn i ni eich ffonio yn ôl;
- yn tanysgrifio i dderbyn un o'n e-gyfathrebiadau;
- yn dod yn Gyfaill, yn Wirfoddolwr, yn Aelod neu'n Ymddiriedolwr;
- yn gosod cwestiwn i ni neu'n rhoi adborth i ni.

Beth yw Gwybodaeth Bersonol?

Dan Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yr UE, y diffiniad o Ddata Personol yw: 'unrhyw wybodaeth sy'n gysylltiedig â pherson naturiol adnabyddedig neu adnabyddadwy ('testun data'); mae person naturiol adnabyddadwy yn un y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn arbennig wrth gyfeirio at adnabyddydd fel enw, rhif adnabod, data lleoliad, adnabyddydd ar-lein neu at un neu fwy o ffactorau sy'n benodol i hunaniaeth gorfforol, ffisiolegol, enetig, feddyliol, economaidd, ddiwylliannol neu gymdeithasol y person naturiol hwnnw'.

Sut rydym ni'n defnyddio'r wybodaeth rydym ni'n ei chasglu

Mae'n bosibl y byddwn ni'n prosesu'ch data personol at ein buddiannau busnes dilys. Ystyr "Buddiannau Dilys" yw buddiannau ein cwmni wrth gynnal a rheoli ein busnes ac wrth ddarparu gwasanaethau a'r chynhyrchion gorau ichi yn y ffordd fwyaf diogel. Mae'r buddiannau hyn yn cynnwys:

- Darparu gwybodaeth ichi am ein cynhyrchion, gwasanaethau, digwyddiadau a gweithgareddau rydych chi'n gofyn i ni amdanynt neu rydym ni'n teimlo allai fod o ddiddordeb ichi, pan rydych chi wedi cydsynio i ni gysylltu â chi at ddibenion o'r fath;
- Ein helpu ni i'ch adnabod pan fyddwch chi'n cysylltu â ni neu'n ymweld â ni.
- Pan fyddwch chi'n cyfathrebu â ni (e.e., trwy e-bost, galwadau ffôn, trydariadau, ac ati), mae'n bosibl y byddwn ni'n cadw gwybodaeth o'r fath a'n hymatebion ichi.

Pan fyddwn ni'n prosesu'ch data personol at ein buddiannau busnes dilys, fe fyddwn ni bob amser yn sicrhau ein bod ni'n ystyried ac yn cydbwyso unrhyw effaith bosibl arnoch chi, a'ch hawliau dan gyfreithiau diogelu data,

Os oes gennych chi unrhyw bryderon ynglŷn â'r prosesu a ddisgrifir uchod, mae gennych chi hawl i wrthwynebu'r prosesu hwn. I gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau, gwelwch adran "Eich Hawliau" isod.

Dewis/optio i mewn ac optio allan

Pryd bynnag y mae galw cael eich cydsyniad ar gyfer prosesu'ch data personol, yna fe fyddech chi'n cael y cyfle i optio i mewn neu optio allan o gael eich manylion cyswllt wedi'u defnyddio'n unol â'r uchod, ar yr adeg pan fydd eich manylion yn cael eu cyflwyno.

Er enghraifft, pan fyddwch chi'n penderfynu dod yn Gyfaill i'r Ymddiriedolaeth neu Wirfoddoli mewn digwyddiad, gallwch chi ddweud wrthym Ni pan fyddwch chi'n darparu'ch manylion nad ydych chi eisiau derbyn unrhyw wybodaeth arall oddi wrth Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys neu ein partneriaid strategol, neu fe allwch chi roi gwybod i ni sut orau i gysylltu â chi â gwybodaeth a allai fod o ddiddordeb.

Os na fyddwch chi eisiau i ni ddefnyddio'ch data yn unol â'r uchod, neu rannu'ch manylion â thrydydd partïon at ddibenion achredu neu ardystio, a fyddech cystal â gadael y blychau perthnasol yn wag/heb eu ticio ar y ffurflen y gwnaethom ni ei defnyddio i gasglu'ch data.

Os na fyddwch chi mwyach eisiau derbyn e-bost neu ddeunyddiau eraill oddi wrthym ni, fe allwch chi optio allan o dderbyn y cyfathrebiadau hyn ar unrhyw adeg, gan ddefnyddio un o'r dulliau a ganlyn:

- ateb yr e-bost gan nodi 'datdanysgrifio' yn y llinell pwnc;
- defnyddio'r blychau optio allan ar y ffurflen ymateb a'i hanfon;
- ysgrifennu at Y Rheolydd Data, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys, Y Swyddfeydd, Coed y Dinas, Welshpool, SY21 8RP;
- ein ffonio ar 01938 553670.

Sylwch, os y byddwch chi'n optio allan o dderbyn cyfathrebiadau oddi wrthym ni mae'n bosibl y byddwch chi'n methu gwybodaeth bwysig ynglŷn â digwyddiadau a gweithgareddau y mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys yn eu cynnal. Mae amrywiaeth y gwasanaethau y mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys neu bartneriaid busnes dethol yn cynnwys, ymhlith eraill:

- Gwasanaethau archaeoleg fasnachol
- Dehongli treftadaeth
- Cyfleoedd gwirfoddoli
- Digwyddiadau
- Areithiau

Rhannu'ch gwybodaeth

Mae'n bosibl y byddwn ni'n datgelu'ch gwybodaeth bersonol i drydydd partïon, os ydym ni dan ddyletswydd i ddatgelu neu rannu'ch data personol ar ddibenion cyfreithiol neu reoliadol, mewn perthynas ag achosion cyfreithiol sy'n bodoli neu rai yn y dyfodol, er mwyn atal twyll/colled neu i amddiffyn hawliau, eiddo, diogelwch Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys, Ein cwsmeriaid neu eraill.

Diogelwch data

Rydym yn storio gwybodaeth am seilwaith yn y DU/UE/UDA. Mae'n bosibl y byddwn ni hefyd yn storio gwybodaeth mewn ffeiliau papur. Mae gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys brotocolau a pholisïau diogelwch ar waith i reoli a chofnodi'ch preifatrwydd a'ch dewisiadau o ran data yn gywir ac i sicrhau bod eich data'n cael eu storio'n ddiogel i amddiffyn rhag eu colli, eu camddefnyddio a'u diwygio. Gellir cyflenwi dogfennaeth ar gais oddi wrth ein Swyddog Diogelu Data trwy e-bost (dpo@cpat.org.uk) neu gellir ei gweld yma ar dudalen preifatrwydd ein gwefan.

Mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys yn cymryd camau i sicrhau y bydd gan unrhyw fusnesau rydym ni'n rhannu'ch data â nhw brotocolau a pholisïau diogelwch ar waith i reoli a chofnodi'ch preifatrwydd a'ch dewisiadau o ran data ac i sicrhau y bydd eich data'n cael eu storio'n gywir.

Yn anffodus, nid yw trawsyrru data dros y rhyngrwyd yn gwbl ddiogel ac er y byddwn ni'n gwneud ein gorau i geisio amddiffyn diogelwch eich gwybodaeth, ni allwn ni sicrhau neu warantu na fydd data'n cael eu colli, eu camddefnyddio neu eu diwygio tra bo data'n cael eu trawsyrru.

Fe fyddwn ni'n cadw'ch gwybodaeth yn unig am gyhyd y mae ei hangen arnom ni i ddarparu'r nwyddau, y gwasanaethau neu'r wybodaeth rydych chi wedi gofyn amdanyn nhw, i weinyddu'ch perthynas â ni, i gydymffurfio â'r gyfraith, neu i sicrhau nad ydym ni'n cyfathrebu â phobl sydd wedi gofyn i ni beidio â gwneud hynny. Pan na fydd angen gwybodaeth mwyach, fe fyddwn ni bob amser yn cael gwared arni'n ddiogel, gan ddefnyddio cwmnïau arbenigol lle bo angen i wneud y gwaith hwn ar ein rhan.

Ymgeiswyr am swydd, gweithwyr presennol Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys neu gyn-weithwyr

Pan fydd unigolion yn ymgeisio am waith yn Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys, fe fyddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth y byddant yn ei chyflenwi i ni yn unig i brosesu eu cais ac i fonitro ystadegau recriwtio. Pan fyddwn ni eisiau datgelu gwybodaeth i drydydd parti, er enghraifft pan fyddwn ni eisiau mynd ar drywydd geirda neu gael 'datgeliad' oddi wrth y

Gwasanaeth Gwahardd, ni fyddwn ni'n gwneud hynny heb roi gwybod ichi ymlaen llaw oni bai bod y datgeliad yn gyfreithiol ofynnol.

Caiff gwybodaeth bersonol am ymgeiswyr aflwyddiannus ei dinistrio neu ei dileu ar ôl 6 mis.

Unwaith y bydd rhywun wedi dechrau gweithio i Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys, fe fyddwn ni'n crynhoi ffeil ynglŷn â'u cyflogaeth. Caiff y wybodaeth a gynhwysir yn y ffeil ei chadw'n ddiogel a chaiff ei defnyddio at ddibenion sy'n uniongyrchol berthnasol i gyflogaeth y person hwnnw'n unig. Unwaith y bydd eu cyflogaeth ag Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys wedi dod i ben, fe fyddwn ni'n cadw'r ffeil yn unol â gofynion ein hamserlen cadw gwybodaeth ac yna'n ei dileu.

Eich hawliau

Dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych chi hawl i ofyn am gopïau o'ch data, gofyn i gael eich data wedi'u cywiro, gofyn i gael eich data wedi'u dileu, gwrthwynebu i ni brosesu'ch data, atal eich data rhag cael eu defnyddio ar gyfer marchnata uniongyrchol, gofyn i ni gyfyngu ar y broses a, lle bo ein systemau'n caniatáu, hawl i weld copi o'r wybodaeth sydd gennym Ni amdanoch chi (cais am fynediad at ddata gan y testun).

Os hoffech chi arfer unrhyw rai o'r hawliau hyn yna cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data yn ysgrifenedig yn
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys, Y Swyddfeydd, Coed y Dinas, Welshpool, SY21 8RP, Y Deyrnas Unedig, neu drwy e-bost i dpo@cpat.org.uk

I gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau dan y Ddeddf Diogelu Data, cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth www.ico.org